taflen wybodaeth

Ôl-ddyledion

Os ydych yn hwyr yn gwneud taliadau ac wedi derbyn rhybudd ôl-daliadau dyma rywfaint o wybodaeth bwysig i'ch helpu.

Peidiwch ag anwybyddu'r broblem.

- **Cysylltwch â'r sefydliad y mae'r arian yn ddyledus iddo.** Dywedwch wrthynt eich bod yn cael problemau. Efallai y gallant drafod opsiynau ar gyfer ad-dalu'r hyn sy'n ddyledus gennych.
- **Ceisiwch help a chyngor am ddim.** Mae eich hawliau a'ch opsiynau'n dibynnu ar y math o gytundeb, a gall y gyfraith fod yn gymhleth. Gallwch gael help a chyngor annibynnol am ddim gan nifer o sefydliadau – trowch drosodd am fanylion.
- **Talwch ddyledion â blaenoriaeth gyntaf** – er enghraifft, morgais, rhent, treth cyngor, neu ôl-ddyledion nwy neu drydan. Gall cynghorydd dyledion eich helpu i lunio cyllideb i reoli eich arian.
- **Meddyliwch yn ofalus cyn benthyg arian i ad-dalu dyledion.** Ceisiwch gyngor cyn benthyg yn erbyn eich cartref – byddwch yn talu mwy yn y pen draw a byddwch yn wynebu risg o golli eich cartref.
- **Efallai y gallwch ofyn i lys am fwy o amser i ad-dalu dyled** – ond dim ond mewn rhai amgylchiadau. Siaradwch â chynghorydd dyledion cyn ystyried cymryd camau mewn llys. Cadwch gopïau o lythyrau ac e-byst rhag ofn y bydd eu hangen ar y llys.

Gallai gwneud dim wneud pethau'n waeth.

Gallai'r benthyciwr gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn, a gallech dalu mwy mewn llog a thaliadau yn y pen draw. Gallai taliadau a fethwyd effeithio ar eich statws credyd a'i gwneud yn fwy anodd i chi gael credyd yn y dyfodol.

Trowch drosodd am fanylion am ble i gael help a chyngor.

Help a chyngor

Gallwch gysylltu â'r sefydliadau nid er elw canlynol am gyngor cyfrinachol a diduedd am ddim.

Y Llinell Ddyled Genedlaethol

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, ffoniwch **0808 808 4000** neu ewch i **www.nationaldebtline.co.uk** i gael cyngor a gwybodaeth am ddyledion.

Gwasanaeth Cwnsela Credyd Defnyddwyr

I gael cyngor ar ddyledion ledled y DU – gan gynnwys Gogledd Iwerddon – ffoniwch **0800 138 1111** neu ewch i **www.cccs.co.uk**

Cyngor ar Bopeth

I gael cyngor a gwybodaeth am ddyledion a materion eraill, ewch i'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth agosaf – edrychwch yn y llyfr ffôn am y cyfeiriad.

Cyswllt Defnyddwyr

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, ffoniwch **08454 04 05 06** neu ewch i **www.consumerdirect.gov.uk** i gael cyngor a gwybodaeth gyffredinol i ddefnyddwyr.

Mae gwefan Cyswllt Defnyddwyr yn cynnwys gwybodaeth am gredyd a chytundebau llogi a rhestr lawnach o asiantaethau cyngor annibynnol.

ConsumerLine

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, ffoniwch **0845 600 62 62** neu ewch i **www.consumerline.org** i gael cyngor cyffredinol i ddefnyddwyr.

Cyngor Cyfreithiol Cymunedol

I gael cyngor am ddim ffoniwch **0845 345 4 345** os ydych yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol neu ewch i **www.communitylegaladvice.org.uk**

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

Os oes gennych gŵyn na allwch ei datrys gyda'ch benthyciwr, gall Gwasanaeth û yr Ombwdsmon Ariannol eich helpu – ffoniwch **0845 080 1800** neu ewch i **www.financial-ombudsman.org.uk**

Ffoniwch **0800 389 3158** i ofyn am fformat gwahanol.

Paratowyd gan y Swyddfa Masnachu Teg
Cod cynnyrch OFT965w
Argraffiad 10/08
℗ Hawlfraint y Goron 2008